Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cronfa Y Pethau Pwysig 2025-2026/7

## (Cylch Awdurdodau Lleol a Pharciau Cenedlaethol)

## Nodiadau Cyfarwyddyd

### 1. Cyflwyniad a phwrpas y gronfa

Mae'r ddogfen hon yn rhoi arweiniad ar wneud cais am gymorth gan Gronfa Y Pethau Pwysig, cronfa gyfalaf a fydd yn cefnogi Awdurdodau Lleol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i ddarparu seilwaith twristiaeth a chyfleusterau ymwelwyr ar raddfa fach.

Diben Y Pethau Pwysig yw sicrhau gwelliannau mewn seilwaith sylfaenol ond hanfodol i ymwelwyr mewn cyrchfannau twristiaeth strategol ledled Cymru i sicrhau bod pob ymwelydd yn cael profiad cadarnhaol a chofiadwy drwy bob agwedd ar eu harhosiad.

Mae Cynllun Strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer Twristiaeth Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020 i 2025 (llyw.cymru) yn nodi pwysigrwydd y gronfa Y Pethau Pwysig gan dynnu sylw at y ffaith bod angen i ni barhau i fuddsoddi yn y seilwaith twristiaeth sylfaenol ledled Cymru, yn ogystal â mewn profiadau ymwelwyr o ansawdd uchel. Felly ystyrir dyrannu arian i gefnogi seilwaith da a sefydlu cyrchfannau hygyrch i ymwelwyr, sy'n cael eu rhedeg yn dda, yn rhan allweddol o'n huchelgeisiau yn y dyfodol i gefnogi twristiaeth.

Er na fydd y prosiectau a gefnogir gan y gronfa ynddynt eu hunain yn denu ymwelwyr, bydd y gronfa'n buddsoddi mewn cyfleusterau a fydd yn gwella boddhad ymwelwyr a phobl leol yn darparu gwell cyfleusterau i ymwelwyr anabl ac yn gwella cynaliadwyedd amgylcheddol cyrchfannau allweddol. Gall yr elfennau hyn, os ydynt ar goll neu heb eu rheoli'n iawn, atal ymwelwyr rhag dod neu eu hatal rhag dychwelyd.

### 2. Pa brosiectau fydd y gronfa'n eu cefnogi?

Bydd rhaglen Y Pethau Pwysig 2025-2026/7 yn canolbwyntio ar gyrchfannau a lleoliadau lle mae angen strategol clir am fuddsoddiad gwell mewn seilwaith twristiaeth gyda ffocws penodol ar feysydd sy'n gweld nifer uchel o ymwelwyr. Dylid nodi pob prosiect yn glir mewn Cynlluniau Rheoli Cyrchfannau awdurdodau lleol, cynlluniau rheoli'r Parc Cenedlaethol, Cynlluniau Tref neu gynllun cyfatebol sy'n nodi angen am y prosiect a'r bwlch yn y ddarpariaeth.

Ar gyfer y rownd ariannu hon, rhaid i bob cais fodloni blaenoriaeth **(i)** isod ac o leiaf un o'r 3 blaenoriaeth allweddol arall:

**(i) Cyrchfannau amgylcheddol gynaliadwy ac ymateb i'r argyfwng hinsawdd.**

Mae gan y sector twristiaeth yng Nghymru rôl allweddol i'w chwarae wrth ymateb i'r argyfwng hinsawdd. Mewn newid i'r rownd flaenorol, bydd angen i bob prosiect gyflawni'r nod hwn trwy gynnwys elfennau a fydd yn gwneud eu cyrchfan yn fwy amgylcheddol gynaliadwy, gan helpu i leihau eu hôl troed carbon a hwyluso'r defnydd o ddulliau teithio mwy cynaliadwy gan ymwelwyr. Mae enghreifftiau o brosiectau yn cynnwys:

- Pwyntiau gwefru cerbydau trydan ac e-feiciau,
- Systemau gwresogi a goleuo cynaliadwy e.e. paneli solar,
- Ffynhonnau dŵr sy'n annog ymwelwyr i leihau'r defnydd o blastigau untro,
- Biniau clyfar a biniau ailgylchu 'wrth fynd',
- Seilwaith ar gyfer cynlluniau parcio a theithio, llochesi bysiau a beiciau,
- Cynlluniau llogi beiciau/e-feiciau,
- Parcio coetsys,
- Gwella llwybrau cerdded a beicio.

**(ii) Lleihau pwysau mewn 'lleoliadau prysur' a chefnogi cyrchfannau twristiaeth o ansawdd uchel.**

Mae mwy o bwysau mewn rhai ardaloedd o Gymru, ar adegau penodol o'r flwyddyn, sy'n arwain at brofiad gwael i ymwelwyr ac effeithiau negyddol ar rai cymunedau lleol. Os na eir i'r afael ag anghenion isadeiledd, gall nifer yr ymwelwyr â rhai rhannau o Gymru arwain at effeithiau sylweddol ar safleoedd diwylliannol, treftadaeth ac amgylcheddol sensitif, yn ogystal â bywydau trigolion o ddydd i ddydd, gan arwain at ganfyddiadau negyddol neu hyd yn oed ddrwgdeimlad tuag at dwristiaid. At hynny, mae arolygon ymwelwyr yn parhau i dynnu sylw at bwysigrwydd gwasanaethau hanfodol fel glendid ac argaeledd toiledau cyhoeddus er mwynhad ymwelwyr o gyrchfan. Mae enghreifftiau o brosiectau yn cynnwys:

- Datblygu 'aires' ar gyfer cartrefi modur a chyfleusterau ar gyfer aros dros nos i gartrefi modur,
- Darparu cynlluniau parcio a rheoli traffig i ymwelwyr,
- Adnewyddu toiledau cyhoeddus mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o ymwelwyr,
- Arwyddion ymwelwyr gan gynnwys cyrchfannau, cyfeiriadol ac arwyddion gwybodaeth,
- Prosiectau sy'n gallu ailgyfeirio ymwelwyr yn rhagweithiol o ganlyniad i giwiau a lleoliadau yn llawn e.e. arwyddion digidol.

**(iii) Twristiaeth gynhwysol a gwella hygyrchedd.**

Byddwn yn cefnogi prosiectau sy'n cael gwared ar rwystrau a rhwystrau i ymwelwyr anabl o fewn cyrchfan ac yn gwella mynediad at gyfleusterau i bawb. Mae enghreifftiau o brosiectau yn cynnwys:

- Uwchraddio cyfleusterau toiledau hygyrch neu osod rhai newydd pwrpasol 'changing places' mewn ardaloedd lle mae nifer uchel o ymwelwyr,
- Gwell llwybrau mynediad ac ardaloedd i gerddwyr a'r rhai sydd â phroblemau hygyrchedd gan gynnwys ardaloedd eistedd pwrpasol,

- Gallai gwelliannau hygyrchedd gynnwys llwybrau cerdded i draethau gyda rheiliau llaw a / neu lwybrau pren i'r traethau,
- Mannau parcio i bobl anabl,
- Cerbydau symudedd / cadeiriau olwyn traeth.

**(iv) Gwella'r cyfleusterau i ymwelwyr.**

Byddwn yn gwahodd prosiectau seilwaith sy'n gwella'r cynnig i ymwelwyr trwy ddatblygu profiadau cynnyrch sy'n darparu ymdeimlad o le fel lleoliadau digwyddiadau, llwybrau a phrosiectau sy'n arddangos bwyd, treftadaeth, diwylliant a'r Gymraeg. Enghreifftiau o'r prosiectau yn cynnwys:

- Cynlluniau dehongli i wella dealltwriaeth ymwelwyr o ddiwylliant a threftadaeth cyrchfan,
- Creu pwyntiau/llwyfannau gwylio mewn lleoliadau allweddol,
- Seilwaith ar gyfer mannau digwyddiadau,
- Gwella llwybrau cerdded a beicio presennol,
- Datblygu cyfleusterau tywydd gwlyb hygyrch a chynaliadwy newydd,Gwelliannau i'r parth cyhoeddus.

**Blwyddyn Croeso**

Bydd 2025 yn nodi Blwyddyn Croeso yng Nghymru fel y diweddaraf mewn cyfres lwyddiannus o flynyddoedd a thema dan arweiniad Croeso Cymru. Yn ogystal â chroeso eang, bydd gweithgarwch marchnata yn dathlu agweddau fel ein profiadau eiconig, cynhyrchion, cyrchfannau a diwylliant, y gellir ond eu canfod yng Nghymru.

Felly, anogir ymgeiswyr i ystyried sut y gall eu prosiect ychwanegu at ddarparu *Croeso* sy'n gynhwysol, er enghraifft drwy wneud cyfleusterau'n hygyrch i bob gallu a hefyd sut y bydd ymdeimlad o le, er enghraifft, defnydd o'r Gymraeg, yn rhan o'r profiad llawn.

## 3. Lefel y cyllid sydd ar gael ac amserlen cyflenwi

Cyfanswm y grant sydd ar gael yw £300,000 gydag uchafswm cyfradd ymyrraeth o 80%.

Nid oes isafswm grant.

Rhaid i'r ymgeisydd dalu unrhyw gynnydd mewn costau i'r prosiect ar ôl dyfarnu cyllid.

Ar gyfer y rownd hon o Y Pethau Pwysig, gellir rhoi naill ai 1 neu 2 flynedd i ymgeiswyr gyflawni prosiectau (os yn briodol).

Os byddwch yn llwyddiannus ar y cam Mynegi Diddordeb (cam 1) fe'ch gwahoddir i gyflwyno cais (cam 2).

Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os bydd eu cais Cam 2 yn llwyddiannus o’r 01 Ebrill 2025.

Rhaid i brosiectau sy'n cael eu cyflawni dros flwyddyn gwblhau, wario’n llawn a’i hawlio erbyn 01 Mawrth 2026.

Os gall prosiect gyfiawnhau'r angen am gyfnod hirach o amser gellir ariannu'r prosiect dros ddwy flynedd ariannol. Rhaid i brosiectau 2 flynedd gwblhau, wario’n llawn a’i hawlio erbyn 31 Ionawr 2027.

## 4. Cymhwystra

### Pwy all wneud cais?

Bydd Y Pethau Pwysig 2025-2026/7 yn canolbwyntio ar gyrchfannau a lleoliadau lle mae angen strategol clir am fuddsoddiad seilwaith twristiaeth gwell.

Mae'r gronfa eleni yn agored i:

- Awdurdodau Lleol
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Rhaid i bob prosiect ddangos cydweithio mewn partneriaeth â phartneriaid cyrchfan ehangach ac ymgynghori traws-sector. Bydd angen i Awdurdodau Lleol ddangos eu bod wedi ymgysylltu â phartneriaid cyrchfan ehangach a chyda'r Partneriaethau / Sefydliad Rheoli Cyrchfan lle cânt eu sefydlu. Gall Awdurdodau Lleol hefyd gynnwys prosiectau a ddarperir gan bartneriaid trydydd sector yn eu ceisiadau.

### Gweithgareddau Cymwys

- Mae ffioedd proffesiynol cymwys y gellir eu trin fel costau cyfalaf yn gymwys. Fodd bynnag, ni all y rhain fod yn fwy na 30% o gyfanswm costau’r prosiect, a rhaid iddynt ymwneud â thasgau unigol sy'n benodol i gyflawni'r prosiect e.e. rheoli contractwyr, ffioedd dylunio, pensaer, a chynllunio, neu adroddiadau ar ddiogelwch ar y ffyrdd ac archwiliadau technegol/arbenigol. Gall y rhain fod ar ffurf gwariant mewnol, a bydd angen tystiolaeth arnom (ee anfonebau) o'r costau a ysgwyddir.
- Mae costau gweithdai ond yn gymwys os gellir eu trin fel costau cyfalaf er enghraifft os cant eu darparu a'u darparu gan ymgynghorwyr yn hytrach na staff presennol .
- Ystyrir bod costau dargadw ond yn gymwys os cânt eu cynnwys gyda'ch cais terfynol a rhaid dangos y swm dargadw ar yr anfoneb/au.

Nid yw'r gweithgareddau canlynol yn gymwys ac ni fyddant yn cael eu hystyried ar gyfer cyllid:

- Gwaith atgyweirio a cynnal a chadw,
- Costau refeniw megis marchnata, gorbenion ac amser staff mewnol/presennol, ar gyfer rolau cydlynu,
- Canolfannau Gwybodaeth i Dwristiaid (TIC).
- Eitemau traul ac isel eu cost fel dillad gwely, cyllyll a ffyrc, llestri ac ati.
- Ariannu cyfatebol mewn nwyddau neu wasanaethau,
- Costau llogi ystafell a lletygarwch,
- Gwariant cyn dyddiad dechrau'r prosiect.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, a bydd y costau'n cael eu hadolygu yn ystod y cyfnod cynnig.

## 5. Y Broses Ymgeisio

Mae dyddiadau agor y gronfa a’r amserlen fel a ganlyn:

| Dyddiad | Cam y prosiect |
|---|---|
| 22 Tachwedd 2024 | Dyddiad cau ar gyfer mynegi diddordeb (1pm) |
| w/d 2 Rhagfyr 2024 | Y cam ymgeisio yn dechrau |
| 14 Chwefror 2025 | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau (1pm) |
| O 1 Ebrill 2025 ymlaen | Anfon llythyrau dyfarnu grant |

Os ydych yn cyflwyno mwy nag un EOI, bydd angen i chi raddio'ch EOIs yn nhrefn blaenoriaeth. Os oes llawer wedi gwneud cais i'r gronfa, byddwn yn gwahodd yr EOIs sydd wedi'u graddio uchaf i'r cam ymgeisio.

**Asesiad Prosiect**

Mae hon yn broses gystadleuol dau gam:

**Cam 1 (Mynegi Diddordeb):** Yn dilyn cyflwyno'r ffurflen Mynegi Diddordeb Y Pethau Pwysig, cynhelir gwiriadau i sicrhau bod y meini prawf cymhwysedd wedi'u bodloni.

Bydd pob ffurflen Mynegi Diddordeb (EOI) yn cael ei asesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

- A yw'r sefydliad yn gymwys i wneud cais?
- A yw'r gweithgaredd / gwariant yn gymwys o dan y gronfa?
- A yw'r ymgeisydd wedi mynd i'r afael â'r nod amgylcheddol ac o leiaf un o flaenoriaethau eraill y gronfa?
- A yw'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth o ymgynghori / trafod gyda phartneriaid cyrchfan ehangach?
- A yw'r ymgeisydd yn berchen ar yr holl dir sy'n berthnasol i'r prosiect neu a oes ganddo gytundeb prydles ar waith am o leiaf 5 mlynedd?
- Os ydych yn gwneud cais am brosiect tymor byr, a ellir ei gyflawni ac a ellir ysgwyddo’r holl gostau a’u hawlio erbyn 01 Mawrth 2026?
- Os ydych yn gwneud cais am brosiect 2 flynedd, a oes angen clir am yr amser ychwanegol ac a ellir cyflawni’r prosiect ac ysgwyddo a hawlio’r holl gostau erbyn 31 Ionawr 2027?
- Os oes angen caniatâd cynllunio, a yw'r ymgeisydd wedi darparu tystiolaeth o drafodaethau cychwynnol gyda'r awdurdod cynllunio lleol?
- A yw'r swm y gofynnir amdano yn unol â chanllawiau'r gronfa?
- A ellir cefnogi'r prosiect o dan y rheolau rheoli Cymhorthdal?
- A yw'r prosiect wedi'i raddio gan yr ymgeisydd?

Gwahoddir EOIs sy'n bodloni'r holl feini prawf cymhwysedd i gyflwyno cais llawn. Nid yw pasio'r cam EOI yn gwarantu y bydd y prosiect yn llwyddiannus yn y broses (Ymgeisio) Cam 2.

Yn ystod yr asesiad EOI, efallai y byddwn yn nodi rhai elfennau o'r cais a ystyrir yn anghymwys neu nad ydynt yn cyd-fynd yn ddigonol â blaenoriaethau'r gronfa. Yn y sefyllfa hon, cewch wybod am y canlyniad a disgwylir i chi gael gwared ar yr elfennau hynny o'ch cais llawn a diwygio eich costau yn unol â hynny.

**Cam 2 (Ymgeisio):** Caiff y ceisiadau llawn eu hasesu a'u sgorio yn erbyn y meini prawf a amlinellir isod.

Mae hon yn broses gystadleuol a dim ond y ceisiadau sy’n sgorio uchaf fydd yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo.

Caiff y ceisiadau llawn eu hasesu yn erbyn y meini prawf canlynol:

| **Meini Prawf Arfarnu** |
|---|
| **Ansawdd y Prosiect** (pwysoliad x10)<br>• Ansawdd syniad/cysyniad y prosiect<br>• Ansawdd cyffredinol y cais a'r disgrifiad o'r cynnig<br>• Manteision ac effaith - Rhaid i ymyriadau gael eu clystyru o amgylch cyrchfannau twristiaeth strategol |
| **Cydweddu Strategaethau** (pwysoliad x5)<br>• Alinio i flaenoriaethau Cronfa Y Pethau Pwysig<br>• Yn cyd-fynd â'r blaenoriaethau cyrchfan / seilwaith awdurdodau lleol |
| **Tystiolaeth o Angen** (pwysoliad x5)<br>• Rhesymau dros ymgymryd â'r gweithgaredd<br>• Rhesymau dros bwysigrwydd strategol y lleoliad a ddewiswyd<br>• Tystiolaeth ac / neu ymchwil ynghylch angen y farchnad / adborth gan ddefnyddwyr |
| **Risgiau, Gweithredu a Chyflawni’r Prosiect** (pwysoliad x10)<br>Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer:<br>• Cynllun y Prosiect<br>• Cyflwyno caniatâd cynllunio ac amserlen<br>• Cymeradwyaeth Draenio Cynaliadwy os oes angen ac amserlen<br>• Risgiau amgylcheddol<br>• Cytundebau perchnogaeth tir neu brydles yn eu lle<br>• Asesu a lliniaru risg<br>• Tîm rheoli prosiect a strwythur<br>• Amserlen hawliadau<br>• Cofnod cyflawni ar brosiectau blaenorol |
| **Canlyniadau’r Prosiect** (pwysoliad x5)<br>• Ansawdd canlyniadau'r prosiect<br>• Ansawdd yr wybodaeth a ddarperir ar sut y caiff effaith y prosiect ei fonitro |
| **Costau'r Prosiect a Gwerth am Arian** (pwysoliad x10)<br>• Mae'r cynnig cyffredinol yn cynrychioli gwerth am arian i Lywodraeth Cymru<br>• Mae costau’r prosiect yn dderbyniol<br>• Mae'r manteision disgwyliedig yn gymesur â chostau<br>• Mae’r arian cyfatebol wedi ei nodi a'i gadarnhau<br>• Mae'r angen am yr arian grant yn glir<br>• A fydd y cyfleusterau ar agor drwy gydol y flwyddyn |

## 6. Cymeradwyaeth a Phenderfyniad

Cewch wybod am y penderfyniad a'r rhesymau drosto. Mae hon yn gronfa ddewisol ac os byddwch yn llwyddiannus yn eich cais, bydd llythyr Dyfarnu Grant yn cael ei anfon. Nid oes proses apelio ar gyfer y gronfa hon. Ni ddylid 'dechrau'r gwaith' ar y prosiect, nac ymgymryd ag unrhyw ymrwymiad ffurfiol cyn y penderfyniad gan y bydd hyn yn dileu y cais. Nid yw Llywodraeth Cymru yn gyfrifol nac yn atebol am unrhyw gostau a ysgwyddir wrth baratoi'r cais. Er ein bod yn gwahodd Datganiadau o Ddiddordeb, mae hyn yn cael ei wneud dros dro yn unig ac ni allwn wneud unrhyw ymrwymiadau ariannol nes bod dyraniad cyllideb Llywodraeth Cymru wedi'i gadarnhau.

## 7. Y Broses Hawlio

Fel rhan o'r broses ymgeisio lawn, bydd angen i chi ddarparu proffil hawlio ar gyfer y cyfnod cyllido llawn ar gyfer eich prosiect. Pan fo'r prosiect wedi'i rannu dros 2 flynedd bydd angen i chi nodi yn union yr hyn a fydd yn cael ei wario ym mlwyddyn 1 a blwyddyn 2.

Bydd o leiaf 3 chyfnod ymgeisio gorfodol ar gyfer prosiect sy'n gorffen erbyn 01 Mawrth 2026 ac o leiaf 6 cyfnod ymgeisio gorfodol ar gyfer y prosiectau hynny a gefnogir tan 31 Ionawr 2027. Hyd yn oed ar gyfer grantiau dwy flynedd, rhaid cyflwyno hawliadau yn unol â'r proffil hawlio y cytunwyd arno neu gallai'r cyllid gael ei golli.

Bydd y proffil hawlio  yn cael ei nodi yn y Llythyr Cynnig Grant.

Polisi Llywodraeth Cymru yw gwneud taliadau mewn ôl-daliadau. Bydd taliadau'n cael eu gwneud mewn ôl-daliadau yn seiliedig ar gostau **a ysgwyddir** gyda thystiolaeth ategol yn cael ei darparu.

Bydd yn rhaid cyflawni pob prosiect yn unol ag amserlen benodol a fydd yn cael ei phennu yn y Llythyr Cynnig Grant. Mae sicrhau arbenigedd rheoli prosiect yn bwysig iawn oherwydd oni lwyddir i gadw at yr amserlen a bennir yn y cynnig, bydd y prosiect yn colli ei arian.

Rhaid cyflwyno ffurflenni hawlio yn electronig a rhaid cynnwys tystiolaeth gwariant fel y nodir yn y llythyr dyfarnu grant ynghyd â diweddariad prosiect, cynnydd a blaengynllun. Gall diweddariadau gynnwys tystiolaeth ffotograffig. Os yw hawliadau'n anghyflawn neu'n anghywir, gall hyn arwain at oedi wrth dalu.

## 8. Arian cyfatebol

Tasg yr ymgeisydd yw sicrhau'r arian cyfatebol sy'n weddill i dalu am holl gostau'r prosiect. Bydd angen i chi ddarparu tystiolaeth bod yr arian cyfatebol wedi'i drefnu gyda'ch cais. Gellir dod o hyd i'r arian cyfatebol o ffynonellau cyllid cyhoeddus eraill. Ni ellir defnyddio grantiau eraill Llywodraeth Cymru fel arian cyfatebol. Pan fo'r arian cyfatebol yn gymhorthdal, rhaid i gyfanswm y cyllid fodloni gofynion Rheoli Cymhorthdal. Ni allwn dderbyn arian cyfatebol mewn ffyrdd eraill.

## 9. Cyflawni Prosiectau – Monitro

Bydd llwyddiant cronfa Y Pethau Pwysig yn cael ei fesur yn erbyn nifer y cyfleusterau ymwelwyr newydd ac ansawdd gwell mewn cyrchfannau allweddol i ymwelwyr a phobl leol a fydd yn arwain at well boddhad a thueddiad ymwelwyr i ddychwelyd.

Ar lefel y prosiect, bydd angen i chi ddangos sut y byddwch yn mesur llwyddiant eich prosiect yn erbyn y canlyniadau canlynol:

- defnydd ymwelwyr (nifer yr ymwelwyr) a mynediad
- boddhad ymwelwyr a thrigolion lleol

Gellid mesur canlyniadau'r prosiect drwy gasglu a monitro adborth ymwelwyr a thrigolion lleol, e.e. adborth a ddarperir ar y cyfryngau cymdeithasol neu drwy arolygon ymwelwyr; monitro cwynion ymwelwyr; casglu niferoedd ymwelwyr drwy gyfri ymwelwyr a thystiolaeth ffotograffig. Rydym yn disgwyl i ddata monitro gael ei gasglu a'i gofnodi yn erbyn y canlyniadau am o leiaf 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect a bydd hyn yn amod grant. Mae'n rhaid i chi gwblhau ac anfon adroddiad monitro atom 2 flynedd a 5 mlynedd ar ôl cwblhau'r prosiect.

## 10. Cyflawni gweithredol

Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd nodi trefniadau cyflawni gweithredol eu prosiectau sy'n ymwneud â cynnal a chadw a glanhau, mynediad ac amseroedd agor. Rydym yn disgwyl i ymgeiswyr ddangos pa fesurau y byddant yn eu cymryd i ymestyn eu horiau agor presennol y tu hwnt i'r hyn y maent yn ei gynnig ar hyn o bryd.

## 11. Rheoli Cymhorthdal y DU

Ar 4 Ionawr 2023, daeth y gyfundrefn newydd ar gyfer rheoli cymhorthdal y DU i rym.

Er mwyn penderfynu a yw cynllun arfaethedig neu ddarpariaeth cymorth unigol yn ‘gymhorthdal’, bydd angen i Lywodraeth Cymru benderfynu a yw'r dyfarniadau cyllid yn bodloni’r pedwar maen prawf o dan gyfundrefn cymhorthdal y DU cyn dyfarnu.

Os bernir bod y dyfarniad yn gymhorthdal, yna bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried a ellir dyfarnu'r dyfarniad naill ai o dan MFA (Cymorth Ariannol Lleiaf) lle nad yw'r cymorth yn fwy na £315,000.00 dros dair blynedd gyllidol (y flwyddyn bresennol ynghyd â dwy flynedd flaenorol), cynllun cymhorthdal cofrestredig perthnasol gan Lywodraeth Cymru, neu ddyfarniad annibynnol lle bydd angen bodloni pob un o'r 7 egwyddor rheoli cymhorthdal. Bydd angen i'r dyfarniad fodloni amodau'r llwybr cymorth a ddewisir, a nodir yn eich llythyr dyfarnu grant.

## 12. Caffael

Bydd yn ofynnol i bob prosiect ddilyn polisi caffael eu sefydliad wrth gaffael nwyddau a gwasanaethau gyda’r grant sydd wedi'i ddyfarnu o dan y gronfa hon. Efallai y byddwn o bryd i'w gilydd yn gofyn am dystiolaeth gennych i ddangos eich bod yn cydymffurfio â'ch polisïau caffael.

## 13. Y Gymraeg

Dylai ymgeiswyr ofyn am gyngor cynnar ynghylch gofynion dwyieithog eu prosiectau a sicrhau eu bod wedi cael eu costio a'u cynnwys yn eu cynigion. Y gofynion Iaith Gymraeg sy'n ymwneud â'r gronfa hon yw:

- arwyddion, deunyddiau addysgol, rhyngweithiol a deongliadol dwyieithog
- cyhoeddusrwydd dwyieithog yn ymwneud â'r prosiect.

## 14. Cyhoeddusrwydd

Bydd angen i chi gydnabod y gefnogaeth ar yr holl gyhoeddusrwydd, datganiadau i'r wasg a deunydd marchnata a gynhyrchir fel rhai sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Rhaid i gydnabyddiaeth o'r fath fod ar ffurf a gymeradwyir gennym ymlaen llaw a rhaid iddo gydymffurfio â chanllawiau brandio Llywodraeth Cymru. Caiff yr holl ofynion eu hamlinellu'n glir yn y llythyr cymeradwyo grant.

## 15. Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol – Datganiad Preifatrwydd

Llywodraeth Cymru yw'r Rheolwr Data am unrhyw wybodaeth a ddarperir gennych. Gallai'r wybodaeth a gesglir gael ei rhannu gydag asiantaethau atal twyll fydd yn ei defnyddio i osgoi twyll a gwyngalchu arian ac i gadarnhau pwy ydych. Cewch wybod rhagor isod sut y caiff eich gwybodaeth ei defnyddio gennym a'r asiantaethau atal twyll hyn.

Bydd yr wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei defnyddio gan Lywodraeth Cymru i brosesu a gweinyddu'r cais hwn. Gellir rhannu'r wybodaeth a ddarperir yma ac yn y gwaith papur cysylltiedig yn gyfrinachol â sefydliadau ariannu cyhoeddus eraill, a chynghorwyr technegol allanol (fel y bo'n briodol). Mae angen inni gasglu'r wybodaeth hon er mwyn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y cynllun. O beidio â darparu'r holl wybodaeth ofynnol, gallai fod yn anodd inni asesu'r cais yn llawn.

Bydd yr wybodaeth a gesglir ar gael i dimau gwasanaethau cymorth Llywodraeth Cymru a'i gweinyddwyr technegol sy'n cynnal y system technoleg gwybodaeth ei gweld. Ni fydd y gweinyddwyr technegol yn defnyddio'ch manylion mewn unrhyw ffordd.

Rhoddir esboniad o'r cyfnod cadw ar gyfer y data a ddelir gennym yn yr hysbysiad preifatrwydd atodedig, ynghyd â'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

## 16. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae amcanion y Ddeddf yn dangos sut y bydd pob corff cyhoeddus yn gweithio i gyflawni'r weledigaeth ar gyfer Cymru a nodir yn y 'nodau llesiant'. Mae'r saith nod llesiant yn dangos pa fath o Gymru yr hoffem ei gweld. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn glir ei bod yn rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir weithio i wireddu'r nodau i gyd, nid un neu ddau ohonynt yn unig. Dyfeisiwyd amcanion y gronfa i adlewyrchu'r holl nodau llesiant.

## 17. Rhagor o Wybodaeth

I drafod eich cais neu syniadau ar gyfer prosiectau, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu Rhanbarthol ar gyfer eich rhanbarth:

- Gogledd Cymru: AndrewWallace.Forfar@llyw.cymru
- De-ddwyrain Cymru: Rebecca.Rees2@llyw.cymru
- De-orllewin Cymru: Ceri.Jones057@llyw.cymru
- Canolbarth Cymru: Nathan.Richards001@llyw.cymru